Ymchwil Cronfa Loteri Fawr
Rhifyn 48

Crynodeb Gwerthuso Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy a Thrawsnewid Gwastraff

Crynodeb Gwerthuso Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy a Thrawsnewid Gwastraff

Côd stoc BIG-GSEVAL48

ISSN 1744-4756 (Print)
ISSN 1744-4764 (Online)
Argraffwyr Belmont Press
Ffotograffwyr Martin Jenkinson, Alan Fletcher
Ysgrifennwyd gan Anne-Marie Binley, Sarah Cheshire, Ann Bridgwood

Copïau pellach ar gael o:

E-bost ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ffôn 01686 611 700
Ffôn testun 01686 610 205

Ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk

Hygyrchedd
Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu arbennig sydd gennych os gwelwch yn dda.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb
Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol; hyrwyddo cymeryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad.

Rydym yn poeni am yr amgylchedd
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy.

Ein gweledigaeth
Rydym wedi'n hymrwymo i ddod a gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein Gwerthoedd
Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesi; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

© Cronfa Loteri Fawr, Tachwedd 2008

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®

Crynodeb gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi canfyddiadau gwerthuso allweddol o ddwy o raglenni amgylcheddol y Gronfa Loteri Fawr: Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy a Thrawsnewid Gwastraff. Mae adran gyntaf y ddogfen hon yn tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol sy'n deillio o'r ddau werthusiad. Yna mae'n mynd ymlaen i drafod canfyddiadau allweddol o bob gwerthusiad ar wahân ac yn olaf mae'n dwyn ynghyd arfer da a'r gwersi a ddysgwyd o'r ddwy astudiaeth. Y crynodeb hwn yw ein dehongliad ni o'r prif ganfyddiadau o'r adroddiadau gwerthuso llawn sydd ar gael ar ein gwefan: www.cronfaloterifawr.org.uk

Mae'r dystiolaeth o'r ddau werthusiad yn dangos bod y rhaglenni wedi:

- codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o bryderon amgylcheddol a chynnig cyfle i bwyllgorau wneud gwahaniaeth
- dangos y gall prosiectau amgylcheddol fod yn ffordd effeithiol o gysylltu cymunedau a hwyluso newidiadau mewn ardaloedd difreintiedig
- creu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau pobl leol
- ariannu ystod eang o brosiectau a fydd yn gofyn am gefnogaeth y gymuned leol a chyfuniad o ariannu o ffynonellau eraill er mwyn eu cynnal
- dangos bod yr arbenigedd, y rhwydweithiau a'r gefnogaeth a ddarparwyd gan y partneriaid dyfarnu wedi'u gwerthfawrogi'n fawr gan brosiectau.

Canfyddiadau allweddol o'r gwerthusiad Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy:

- Ariannwyd ymron i 3,500 o brosiectau trwy'r rhaglen, ac o'u plith roedd 75 y cant yn brosiectau meysydd glas ac roedd 25 y cant yn brosiectau cymunedol bach.
- Roedd Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy wedi'u halinio'n dda gyda pholisïau cyfredol ac ar ddod ar draws y DU.
- Roedd Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy yn weddol lwyddiannus wrth ariannu cymunedau a oedd yn uchel yn y Mynegai Amddifadedd Lluosog, er roedd hyn wedi'i atred i ryw raddau trwy gyflawni lledaeniad rhanbarthol da o ariannu
- Roedd prosiectau amgylcheddol a ariannwyd yn annog cyswllt cymunedol – yn cyfrannu at gymdogrwydd cynyddol, cefnogaeth ar y cyd a gwell gallu i weithio fel cymuned gyda dieithriaid
- Roedd ychydig dros 70 y cant o'r gofodau yr ymwelwyd â hwy yn parhau i gael eu cadw'n dda ar ddiwedd y gwerthusiad. Prosiectau a oedd yn dibynnu'n drwm ar Feysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy am arian refeniw oedd y mwyaf wrth risg o orfod torri i lawr ar eu gwaith neu derfynu eu gwaith.
- Roedd defnyddio partneriaid dyfarnu yn arloesiad pwysig wrth ddosbarthu grantiau ar gyfer y Gronfa Loteri Fawr. Roedd y rhaglen yn adeiladu ar arbenigedd partner dyfarnu a rhwydweithiau, ac roedd y gefnogaeth wedi'i theilwra a ddarparwyd i brosiectau, trwy alluogwyr prosiect, yn ystod y cyfnodau cyn ymgeisio ac ar ôl hynny yn ddefnyddiol i brosiectau. Serch hynny, roedd hi'n anodd i bartneriaid dyfarnu barhau o fewn yr arweiniad o 10 y cant o'r ariannu ar gyfer costau gweinyddol.

Mae canfyddiadau allweddol o'r gwerthusiad Trawsnewid Gwastraff yn dangos bod y rhaglen wedi:

- helpu i greu gwasanaethau rheoli gwastraff newydd a gwella'r rhai cyfredol er mwyn i bobl allu ailgylchu a gostwng eu gwastraff yn well
- cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fuddion ailgylchu ac ailddefnyddio ar gyfer y gymuned a'r amgylchedd
- ehangu ar y posibilrwydd dros ailgylchu: er enghraifft, gallu ailgylchu eitemau megis paent a chyfarpar electronig
- annog dros hanner miliwn o gartrefi i chwarae rhan mewn ailgylchu a chefnogi symudiad positif mewn agweddau tuag at ailgylchu
- darparu cyfleoedd i bobl leol o ardaloedd difreintiedig trwy gyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli sydd wedi helpu i godi hyder a sgiliau ac mae wedi galluogi iddynt deimlo'n rhan o'u cymuned
- ariannu ystod eang o brosiectau ailgylchu ac ailddefnyddio; serch hynny mae mwyafrif prosiectau yn adnabod y byddant yn ddibynnol ar ariannu yn y dyfodol er mwyn bod yn gynaliadwy yn ariannol.

Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy

Cefndir i'r Rhaglen

Roedd Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy yn rhaglen ledled y DU ac roedd ei nodau wedi'u teilwra i anghenion penodol pob gwlad yn y DU. Fe wnaeth y Gronfa Loteri Fawr ddyrannu £126 miliwn i naill ai:

- creu, cadw, gwella neu hyrwyddo mynediad at fannau gwyrdd o werth addysgiadol, hamddenol neu amgylcheddol i'r gymuned, gan gynnwys caffael tir, ailddefnyddio tir diffaith, a chreu cynefinoedd sy'n annog bioamrywiaeth; neu
- annog prosiectau cymunedol bach, sy'n ymgysylltu pobl leol mewn gwella a gofalu am eu hamgylchedd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Nid yn unig yr oedd Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy yn canolbwyntio ar newid amgylcheddol ond hefyd ar sicrhau bod cymunedau yn gallu cymryd rheolaeth ar brosiectau. Roedd gan y rhaglen Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy fuddion amgylcheddol a chymdeithasol.

Dosbarthu grantiau

Roedd y rhaglen yn gweithredu ar draws y DU, ac fe'i cyflwynwyd ar ran y Gronfa Loteri Fawr gan 10 o bartneriaid dyfarnu, un yr un yn Iwerddon, yr Alban a Chymru a saith yn Lloegr. Roedd y rhaglen Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy yn ymbarél o 10 o raglenni a oedd wedi'u brandio'n unigol a gyflwynwyd gan bob partner dyfarnu. Roedd y dyraniadau ariannu wedi'u seilio ar ddosbarthiad poblogaeth ar draws y DU ac wedi'u pwyso ar gyfer lefelau o amddifadedd.

Roedd y partneriaid dyfarnu yn cynnwys sefydliadau'r sector cyhoeddus a gwirfoddol a dyma'r tro cyntaf yr oedd dosbarthwr y loteri wedi dirprwyo awdurdod dosbarthu grantiau i ymgymryd â phenderfyniadau grantiau. Caniatawyd lefelau arwyddocaol o ryddid i bartneriaid dyfarnu i bennu eu rhaglenni eu hunain ym mhob gwlad.

Darparodd y partneriaid dyfarnu gefnogaeth gyffredinol ar gyfer prosiectau yn ystod y cyfnod cyn ymgeisio am grant a'r cyfnod dechrau prosiect. Roedd y gefnogaeth yn cynnwys arweiniad ar ysgrifennu'r cais, hyfforddiant a rhwydweithio. Yn ychwanegol at hyn, defnyddiodd nifer o bartneriaid dyfarnu alluogwyr prosiect. Roedd y rhain yn gysylltiadau penodol ar gyfer y prosiect a oedd yn helpu i ddatrys problemau a darparu cysylltiadau at wasanaethau arbenigol, megis cymorth cyfreithiol gyda phrydlesi a chaffael tir. Roedd galluogwyr prosiect yn canolbwyntio ar gefnogaeth ar gyfer grwpiau amhrofiadol.

Cefndir i'r gwerthusiad

Rhwng 2002 a 2007 ymgymerodd Sally Downs Associates ar y cyd ag Alison Millward Associates â'r gwerthusiad Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy. Yr adroddiad hwn yw ein dehongliad ni o ganfyddiadau'r gwerthuswyr.

Nodau'r gwerthusiad oedd:

- archwilio effaith Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy ar gynhwysiant cymdeithasol
- gwerthuso a defnyddio'r Partneriaid Dyfarnu.

Roedd y gwerthusiad yn canolbwyntio ar 101 o astudiaethau achos prosiect dethol er mwyn darparu adlewyrchiad cadarn o'r rhaglen gyfan. Ymhlith y dulliau gwerthuso yr oedd dadansoddiad o gronfa ddata grant y Gronfa Loteri Fawr; cyfweliadau gyda dechreuwyr prosiect, buddiolwyr prosiect a phartneriaid dyfarnu; ac ymweliadau astudiaeth achos prosiect. Sgoriwyd yr holl brosiectau astudiaeth achos i asesu eu cyfraniad at ddatblygiad cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a chyfalaf cymdeithasol.

Canfyddiadau allweddol

Cyfleoedd ar gyfer pobl leol

Roedd cymdogaethau cyfan yn elwa o Feysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy ynghyd â'r bobl a oedd yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r prosiect. Roedd perthnasau a gofalwyr y defnyddwyr prosiect, gwirfoddolwyr a staff cyflogedig y prosiectau hefyd yn elwa. Roedd y buddion yn amlwg ar sawl lefel.

Ar lefel y gymdogaeth roedd pobl yn:

- sicrhau mynediad at feysydd gwyrdd a chyfleusterau newydd ac wedi'u hadnewyddu
- cydweithio gyda'u cymdogion i wella eu hardal leol
- cwrdd â phobl newydd
- dylanwadu ar benderfyniadau polisi yn lleol
- datblygu synnwyr cynyddol o falchder yn eu hardal.

Roedd rhai prosiectau wedi'u hanelu at grwpiau penodol. Ymhlith yr enghreifftiau yr oedd ardaloedd chwarae ar gyfer plant a gwarchodfeydd natur lleol a oedd yn gwneud eu gofod yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Ar lefel unigol, roedd Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy yn:

- creu swyddi
- cynnig cyfleoedd gwirfoddoli
- darparu hyfforddiant ar gyfer staff cyflogedig a di-dâl.

Pan aseswyd y prosiectau astudiaeth achos gan y gwerthuswyr, roedd hanner yn 'berfformwyr uchel' ar gynhwysiant cymdeithasol, a dim ond tri allan o 101 y dywedwyd eu bod wedi cael 'dim effaith'.

Datblygiad cynaliadwy

Diffinnir datblygiad cynaliadwy fel 'datblygiad sy'n bodloni anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain' (Brundtland Commission, 1987).

Ystyrir bod gan ddatblygiad cynaliadwy agweddau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Roedd y gwerthusiad yn edrych ar berfformiad unigol pob prosiect astudiaeth achos ar gyfer datblygiad cynaliadwy cyffredinol ac ar bob elfen ar wahân ohoni.

- Sgoriodd tua hanner y prosiectau astudiaeth achos yn uchel ar y perfformiad cyffredinol, roedd y rheini a oedd wedi gwneud hynny'n anelu'n benodol i fynd i'r afael â datblygiad cynaliadwy ac ystyried ei effeithiau ehangach.
- Fe wnaeth prosiectau astudiaeth achos berfformio gryfaf ar elfen gymdeithasol ar ddatblygiad cynaliadwy a'r lleiaf ar yr agwedd economaidd.

Dangosodd y gwerthusiad bod llwyddiannau ar un o agweddau datblygiad cynaliadwy yn aml yn gysylltiedig â llwyddiannau ar eraill. Canfu'r gwerthusiad:

- bod newid amgylcheddol yn gatalydd pwysig ar gyfer cyflawni buddion cymdeithasol
- bod prosiectau amgylcheddol yn gallu cyflawni buddion amgylcheddol a chymdeithasol cryf a chyfun.

Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy

Effaith amgylcheddol
O dan y rhaglen Meysydd Glas a Chymunedau Cymdeithasol, ariannwyd cyfanswm o 3,425 o brosiectau.

- Roedd 48 y cant yn feysydd gwyrdd
- Roedd 26 y cant yn feysydd ar gyfer chwaraeon a chwarae plant.
- Roedd 25 y cant yn brosiectau datblygiad cynaliadwy

Yn eu plith:

- Roedd 1,163 yn feysydd glas cymunedol
- Roedd 238 yn goedwigoedd a gwarchodfeydd natur
- Roedd 251 yn brosiectau mynediad meysydd glas
- Roedd 384 yn feysydd chwaraeon
- Roedd 518 yn brosiectau chwarae plant, a
- Roedd 871 yn brosiectau ffordd o fyw cynaliadwy, gan gynnwys llwybrau beicio, arbed ynni a phrosiectau ailgylchu.

Roedd ychydig yn llai na hanner y prosiectau astudiaeth achos yn dangos perfformiad amgylcheddol da. Mae'n syndod nad yw'r nifer yn uwch gan fod nifer o'r prosiectau a'r partneriaid dyfarnu yn dod o'r sector amgylcheddol. Serch hynny, ychydig iawn o brosiectau y gellid eu disgrifio yn amgylcheddol yn unig gan fod llawer yn edrych i gyfuno newid amgylcheddol gyda buddion cymdeithasol.

Prosiect No Waste Gardening, Rhaglen Fresh Futures
Yr Alban

Sefydlwyd y Prosiect No Waste Gardening i ailgylchu gwastraff gardd a gostwng tirlenwi.

Nod ehangach oedd annog technegau garddio cynaliadwy, cyfeillgar i fywyd gwyllt a pharch dros yr amgylchedd lleol. Roedd y rheolwr prosiect yn arddwr organig profiadol ac fe wnaeth gynnal gweithdai ac arddangosiadau ymarferol ar y cyd â chydlynwyr prosiect gwirfoddol. Fe wnaethant ddosbarthu biniau compostio a llawlyfr cynghori am dechnegau ailgylchu, a gweithio gydag ysgolion i ymgorffori egwyddorion amgylcheddol ac ailgylchu i mewn i'r cwricwlwm. Dosbarthwyd biniau i ymron i 600 o gartrefi, gydag adborth gan gydlynwyr lleol yn awgrymu bod llawer yn cael eu defnyddio. Yn sgil y prosiect hwn, mae Cyngor Rhanbarthol y Borders wedi dosbarthu biniau compostio i tua 15,000 o gartrefi.

creu, cadw, gwella,

Effaith gymdeithasol a chymunedol
Mae cyfalaf cymdeithasol yn ymwneud â phatrwm a dwyster y rhwydweithiau rhwng pobl ac i ba raddau y maent yn rhannu gwerthoedd. Gellir casglu tystiolaeth mewn sawl ffordd, gan gynnwys cymdogaethau cyfeillgar a chynorthwyol, rhwydweithiau cymdeithasol cryf, ymddiriedaeth gymdeithasol gynyddol a chyfleoedd i ddylanwadu ar bolisi diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd. Canfu gwerthusiad Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy bod cysylltu â phrosiectau amgylcheddol yn ffordd wych o feithrin gallu cymdeithasol ac annog cyswllt cymunedol.

Roedd cyswllt cymunedol yn amlwg ar amryw gyfnodau, yn ystod y cyfnod cynllunio pan roedd cymunedau yn gysylltiedig â sefydlu anghenion, wrth ddechrau prosiect, trwy gydol gweithgaredd prosiect ac wrth ofalu a chynnal safleoedd yn yr hirdymor.

Fe wnaeth mwy na thraean o'r prosiectau astudiaeth achos berfformio'n 'dda' ar gyfalaf cymdeithasol ac roedd traean arall wedi gwneud enillion 'cymedrol'. Canfu'r gwerthusiad:

- bod prosiectau wedi'u harwain gan sefydliadau llawr gwlad neu gymunedol yn fwy llwyddiannus na'r rheini sy'n mabwysiadu ymdriniaeth o'r 'top i lawr' wrth feithrin cyfalaf cymdeithasol. Cafodd y prosiectau hyn eu hadnabod gan y gymuned a oedd yn defnyddio'r cyfleuster ac roedd y gymuned honno eu hangen.
- mae 'gwneud rhywbeth gyda' phobl yn fwy tebygol o gysylltu hwy na 'gwneud rhywbeth ar eu cyfer'. Y rheswm dros hyn oedd bod perchnogaeth gymunedol yn y prosiect
- er ei bod yn broses araf, canfuwyd bod defnyddio cyfryngwyr i gysylltu ac ymglymu'r gymuned leol yn weithredol wrth gynllunio a sefydlu prosiect yn bwysig wrth gynhyrchu perchnogaeth leol ar y prosiect.

Prosiect Seacourt Housing Estate, Rhaglen Creating Common Ground
Gogledd Iwerddon

Mae maes chwarae plant o'r radd flaenaf wrth galon y gwelliannau i'r ystâd; mae'n cynnig 'tir cyffredin'. Mae'n denu pobl ifanc o ystadau a chefndiroedd crefyddol eraill i ddod i Seacourt ac mae'n goresgyn y rhaniadau cymunedol o'r gorffennol. Mae darparu mwy ar gyfer y bobl ifanc a'r rhai yn eu harddegau hŷn wedi bod, ac yn parhau i fod, yn allweddol wrth weddnewidiad yr ystâd.

Mae'r prosiect wedi gweddnewid yn llwyr yr ystâd dihoeniad, rhanedig yn fan tawel, mwy integredig, agored, cysylltiedig i fyw, a gydag amgylchedd cysefin amgylcheddol i'r preswylwyr ei fwynhau.

Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy

Effaith economaidd

Fe wnaeth Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy gynnig buddion economaidd i unigolion a oedd yn gysylltiedig â rhedeg y prosiect a'r bobl yr oedd y prosiect yn anelu at eu gwasanaethu. Roedd hyn yn cynnwys creu swyddi cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli ar gyfer staff cyflogedig a di-dâl, ac wrth ddatblygu sgiliau staff. Roedd y rhaglen hefyd o fudd i unigolion a oedd yn defnyddio'r prosiect, er enghraifft wrth dderbyn cyngor ar effeithlonrwydd ynni a chost tannwyd i ddangos iddynt sut i dorri eu biliau.

Y cyfraniadau a wnaed gan brosiectau at agwedd economaidd ar ddatblygiad cynaliadwy oedd y rhai a oedd wedi'u datblygu lleiaf. Y rheswm dros hyn oedd mai ychydig o brosiectau a oedd wedi nodi materion economaidd fel eu man cychwyn.

- Roedd tua thraean o'r prosiectau astudiaeth achos wedi cael effaith 'canolig i uchel' ar agweddau economaidd ar ddatblygiad cynaliadwy.
- Roedd tua thraean wedi cael effaith 'fach' a thua traean wedi cael 'dim' effaith.
- Ymhlith y rheini a berfformiodd yn dda oedd prosiectau a oedd yn anelu at fynd i'r afael â datblygiad cynaliadwy a'i agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.

Prosiect Fferm Tyddyn Môn, Rhaglen Enfys Cymru

Mae Fferm Tyddyn Môn mewn ardal wledig sydd wedi'i heffeithio gan ddiweithdra uchel, ystadau tai problemus, ac unigedd gwledig. Mae'n rhan o rwydwaith Ynys Môn o gyfleusterau cymorth ar gyfer pobl gydag anawsterau dysgu a'u teuluoedd.
Y weledigaeth hirdymor yw i'r fferm fod yn gymysgedd o ddarparwr gwasanaethau cymunedol ac atyniad i ymwelwyr.

Roedd gan y prosiect grŵp cleientiaid targed o bobl gydag anghenion arbennig. Mae gwelliannau gan gynnwys llwybrau troed newydd, gatiau a chamfeydd wedi hwyluso'r symud o amgylch y fferm. Mae ffosydd a phrysg wedi'u clirio, cylfatiau wedi'u hadeiladu, a byrddau dehongli newydd ar hanes lleol, cynefinoedd a bywyd gwyllt wedi'u darparu. Bellach gall cleientiaid weithio yn yr awyr agored ym mhob tywydd, ac mae'n haws i ymwelwyr weld o amgylch y fferm.

Cymerodd y prosiect un a oedd wedi gadael yr ysgol heb gymwysterau gan roi hyfforddiant a hyder iddo. Fe enillodd dri chymhwyster OCR a daeth yn aelod gwerthfawr o'r tîm gyda rhagolygon ar gyfer cyflogaeth barhaol. Datblygodd aelodau o'r grŵp cleientiaid sgiliau wrth osod llwybrau, clirio tir, a gwaith adeiladu syml.

Cynaliadwyedd ariannol

- roedd llai na 10 y cant o'r prosiectau wedi'u cynnal yn llawn trwy gael eu prif ffrydio, trwy naill ai'r sector preifat neu gan awdurdodau lleol
- roedd 40 y cant o'r prosiectau mewn iechyd ariannol da pan ddaeth yr ariannu i ben, ac roeddynt yn cynnal eu hunain neu'n tyfu mewn cryfder
- roedd y gweddill wedi'u rhannu'n fras rhwng wedi cau i lawr ac yn profi anawsterau.

Cynaliadwyedd ffisegol

Prosiectau Meysydd Gwyrdd

- Roedd 71 y cant yn derbyn gofal da ac mewn cyflwr da
- Roedd 20 y cant yn dangos arwyddion arwyddocaol o ddirywiad oherwydd traul a gwisgo a/neu fandaliaeth
- Roedd 9 y cant wedi'u hesgeuluso'n ddifrifol.

Prosiectau datblygu cynaliadwy

- Roedd 40 y cant mewn iechyd da ac roeddynt yn parhau gyda'r gweithgareddau a ddechreuwyd gydag arian Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy, neu'n eu cynyddu
- Roedd 30 y cant wedi gorfod gostwng eu gweithgareddau oherwydd prinder arian
- Roedd 30 y cant wedi gorfod cau.

Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy

Partneriaid dyfarnu
Fe wnaeth y gwerthusiad hefyd asesu gwerth ychwanegol defnyddio partneriaid dyfarnu, er mwyn profi'r rhagdybiaethau a oedd yn cyfiawnhau penderfyniad y Gronfa Loteri Fawr i gyflwyno'r rhaglen y ffordd hon.

Canfu'r gwerthusiad bod defnyddio partneriaid dyfarnu i ddosbarthu grantiau ar ran y Gronfa Loteri Fawr o fudd mawr i ymgeiswyr ac i'r rheini a dderbyniodd grantiau Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy. Cryfderau allweddol y partneriaid dyfarnu oedd eu sgiliau a'u harbenigedd mewn datblygiad amgylcheddol a chynaliadwy, eu gallu gweithredol, y gefnogaeth helaeth y gwnaethant ei ddarparu i brosiectau, a'u gwaith ar lefel leol.

Llwyddiannau penodol y partneriaid dyfarnu oedd:

- arian ychwanegol yr oeddynt yn gallu ei dynnu i mewn i'r rhaglen
- cyrraedd cymunedau y mae amddifededd yn effeithio arnynt na fyddai'r Gronfa Loteri Fawr wedi gallu eu cyrraedd ar ei phennau ei hun
- cefnogaeth prosiect wedi'i theilwra yn dibynnu ar eu profiad o ddatblygu ceisiadau grant a chyflwyno gweithgareddau.

Tynnodd y partneriaid dyfarnu sylw at nifer o faterion proses yn y gwerthusiad.

- Roedd yr ymdriniaeth wedi'i theilwra tuag at weithio gydag ymgeiswyr a'u cefnogi yn drwm ar amser ac yn ddrud iawn, ac nid oedd modd ei chyflwyno o fewn y targed gwariant gweithredu a osodwyd gan y Gronfa Loteri Fawr.
- Teimlwyd bod rhaglenni tair blynedd yn gyfnod o amser annigonol i gyrraedd grwpiau cymunedol difreintiedig. Y rheswm dros hyn oedd bod grwpiau cymunedol amhrofiadol yn cymryd amser i lenwi cais o ansawdd, cyflwyno'r prosiect ac ymdopi gydag oediadau.
- Roedd yr amser a roddwyd i gynllunio a phrofi prosesau rhaglen yn rhy fyr a dyfarnwyd grantiau cyn yr oedd y partneriaid dyfarnu yn gwbl barod.

Prosiect Community Energy Support, rhaglen SEED Lloegr

Roedd y prosiect Community Energy Support yn cydlynu cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant i sefydliadau cymunedol anamgylcheddol yng nghanol dinas Birmingham. Roedd y prosiect yn galluogi iddynt ddatblygu eu gallu i ddarparu cyngor ar effeithlonrwydd ynni a chost tanwydd i'w buddiolwyr, mesurau gwella effeithlonrwydd ynni i gartrefi eu buddiolwyr, a mynediad at gyllid ar gyfer gosod y gwelliannau.

Y nodau oedd gostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynyddu lefelau cynhesrwydd fforddiadwy ymhlith cartrefi difreintiedig. Ymhlith y buddion economaidd penodol oedd gostwng gwariant ar danwydd er mwyn i gartrefi gael mwy o incwm i'w wario a chreu menter gymdeithasol. Er bod yr ariannu wedi dod i ben, mae'r rhaglen wedi parhau. Mae saith o fentrau cymdeithasol yn cael eu datblygu gan sefydliadau partner ar gyfer gosod mesurau effeithlonrwydd ynni. Eu prif genhadaeth yw cael pobl ddifreintiedig i mewn i waith trwy ddatblygu sgiliau.

Trawsnewid Gwastraff

Mae'r crynodeb yn awr yn symud ymlaen i drafod y canfyddiadau allweddol o'r gwerthusiad Trawsnewid Gwastraff.

Cefndir i'r rhaglen

Sefydlwyd y rhaglen gyda'r nod o ehangu ar ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio gwastraff y sector cymunedol ar draws y DU. Roedd y rhaglen £46 miliwn hon yn ariannu prosiectau a arweiniwyd gan sefydliadau'r sector cymunedol i:

- gynyddu swm ac ystod y deunyddiau a ddargyfeiriwyd o'u gwaredu'n derfynol
- cynyddu nifer y cartrefi sy'n cyfranogi mewn ailgylchu, ailddefnyddio a chompostio gwastraff
- datblygu cymunedau cynaliadwy.

Ym mhob gwlad penodwyd un sefydliad fel ein partner i reoli a chyflwyno ein hariannu ar gyfer y rhaglen hon. Roedd y partneriaid dyfarnu hyn yn cyflwyno ariannu trwy broses ymgeisio agored ac yn darparu cyngor i ymgeiswyr posibl a chefnogaeth i ymgeiswyr llwyddiannus wrth gyflwyno eu prosiectau.

Cefndir i'r gwerthusiad

Fe wnaethom gomisiynu astudiaeth werthuso o'r rhaglen hon a oedd yn rhedeg rhwng 2003 hyd at 2006. Roedd y gwerthusiad hwn yn anelu at fynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol y rhaglen, effeithlonrwydd ac effaith cyfranogiad cymunedol, a'r effeithiau tymor hwy yn nhermau cynaliadwyedd prosiect. Ymgymerwyd â'r gwerthusiad gan Environmental Resources Management (ERM) a Eunomia Research and Consulting.

Roedd y gwerthusiad yn tynnu gwybodaeth o sawl ffynhonnell, gan gynnwys ymweliadau â 30 prosiect mewn dau gyfnod

- ar y dechrau a tuag at ddiwedd eu hariannu. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad o berfformiad a chynnyrch o'r holl brosiectau a ariannwyd, cyfweliadau gyda phob un o'r pedwar partner dyfarnu, ac adolygiad bwrdd gwaith o bolisïau cenedlaethol a strategaethau ariannu.

Canfyddiadau allweddol

Rheoli gwastraff

Mae'r gwerthusiad wedi dangos bod y rhaglen wedi cael nifer o effeithiau amgylcheddol ar gymunedau ar draws y DU. Un o'r canlyniadau amgylcheddol pwysicaf y mae'r rhaglen wedi'u cyflawni yw'r cyfraniad sylweddol y mae wedi'i wneud tuag at ddatblygu isadeiledd rheoli gwastraff cynaliadwy. Mae'r rhaglen wedi gwneud hyn trwy helpu i greu gwasanaethau rheoli gwastraff newydd a gwella'r rhai cyfredol er mwyn i bobl allu ailgylchu ac ailddefnyddio eu gwastraff yn well. Mewn rhai ardaloedd mae'r prosiectau wedi darparu'r unig wasanaeth rheoli gwastraff, sy'n galluogi i bobl ailgylchu lle nad oeddynt wedi gallu gwneud hynny o'r blaen.

Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod y rhaglen nid yn unig wedi cynyddu'r gallu i alluogi pobl i ailgylchu, ond mae hefyd wedi codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fuddion ailgylchu ac ailddefnyddio i'r gymuned a'r amgylchedd. Mae hyn yn ei dro wedi cyfrannu at newid diwylliant ailgylchu lle fo pobl yn cysylltu â'r gweithgaredd hwn yn llawer yn fwy.

Mae'r rhaglen wedi ariannu ystod eang o brosiectau er mwyn helpu i isafu swm y gwastraff sy'n mynd i dirlenwi. Ymhlith rhai enghreifftiau o'r prosiectau a ariannwyd o dan y rhaglen hon y mae:

- prosiectau sy'n casglu, adnewyddu, ac ailddefnyddio dodrefn y cartref
- prosiectau sy'n galluogi i bobl gael eu gwastraff wedi'i gasglu o'u cartref a fydd yna'n cael ei ailgylchu
- casglu paent a fydd wedyn yn cael ei ailddefnyddio
- prosiectau sy'n cysylltu gydag ysgolion sy'n codi ymwybyddiaeth am fuddion ailgylchu a sut i ailgylchu.

Yn ychwanegol, mae'r rhaglen hefyd wedi gallu annog dealltwriaeth o'r posibilrwydd dros ailgylchu ac ailddefnyddio. Er enghraifft, mae ein hariannu wedi galluogi i brosiectau ystyried ffyrdd eraill o ailgylchu gwastraff trwy edrych ar ddeunyddiau penodol megis paent ac offer trydanol. Dangosodd yr ymweliadau astudiaeth achos bod prosiectau yn gallu symud o gasglu ac ailgylchu deunyddiau unigol i agor eu gwasanaethau i ystod mwy o eitemau. Er enghraifft, symudodd rhai prosiectau ymlaen o ailgylchu papur i 'ffrydiau aml ddeunyddiau' megis casglu papur, gwydr a thuniau.

Casglu o'r Cartref

Dyfarnwyd arian i brosiect casglu o'r cartref yng Ngogledd Iwerddon er mwyn cymhwyso ei fodel dros gasglu nifer o wahanol fathau o ddeunyddiau o gartrefi. Ers dechrau'r prosiect mae lefel y cyswllt mewn ailgylchu o fewn yr ardaloedd preswyl yr oedd yn ei wasanaethu wedi cynyddu'n ddramatig. Mae cartrefi a oedd â mynediad cyfyngedig iawn yn flaenorol at wasanaethau ailgylchu bellach yn cael cyfle wythnosol i allu ailgylchu gwydr, papur ac alwminiwm. Mae hyn wedi bod yn hynod fuddiol i gartrefi heb gar nad oeddynt yn gallu cael mynediad at safleoedd amwynder dinesig cyfredol a oedd wedi'u lleoli ar ochr arall y ddinas.

Cynnwys y gymuned

Mae cefnogaeth a chyfranogiad y gymuned yn hanfodol i lwyddiant unrhyw brosiect wrth gasglu ac ailgylchu gwastraff o'r gymuned honno. Canfu'r gwerthusiad bod dros hanner miliwn o gartrefi yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ailgylchu, ailddefnyddio neu gompostio a gyflwynwyd gan y prosiectau. Fe wnaeth nifer o'r prosiectau a holwyd gynnig sylwadau ar yr effaith bositif y cafodd eu gweithgareddau ar gynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth y cyhoedd o fuddion ailgylchu gwastraff a'r opsiynau dros ei reoli. Teimlodd y prosiectau yn gryf hefyd bod eu gwaith yn y gymuned yn cynhyrchu brwdfrydedd dros ailgylchu a chefnogi symudiad mewn agweddau am bwysigrwydd ailgylchu.

Mae prosiectau a ariannwyd wedi gweithio'n agos gyda chymunedau i'w hysbysu o fuddion ailgylchu i'r amgylchedd ac i'r gymuned. Maent wedi gweithio'n galed i herio syniadau pobl ynglŷn â beth yw ystyr ailgylchu a'u hysbysu o sut y gallant chwarae rhan.

Compostio yn y Cartref

Mae prosiect compostio yn y cartref yng ngogledd-orllewin Lloegr wedi darparu cyngor a hyfforddiant i gartrefi er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gompostio a'r hyn y gall pobl ei wneud er mwyn ei gefnogi. Adroddodd y prosiect bod mwy o gartrefi wedi dod yn gysylltiedig â'r gwasanaeth casglu o'r cartref, yn casglu gwastraff arall, o fewn ardaloedd lle mae'r prosiect wedi bod yn gweithio. Mae hyn yn tynnu sylw y gall gweithio gyda chartrefi ar sut i ailgylchu un math o wastraff gael effaith ar agweddau pobl tuag at ailgylchu gwastraff arall.

Trawsnewid Gwastraff

Teimlodd llawer o brosiectau yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad eu bod yn helpu i greu synnwyr o falchder dinesig ymhlith cymunedau. Teimlodd y bobl hynny a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect eu bod yn cyfrannu'n weithredol at wella eu cymunedau a'u bod yn helpu i wella ansawdd bywyd grwpiau unigolion.

Cyfleoedd ar gyfer pobl leol

Mae'r rhaglen wedi creu cyfleoedd ar gyfer ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a gwirfoddoli i bobl leol. Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan brosiectau a ariannwyd o dan y rhaglen hon yn dangos, ar draws y DU, bod 900 o swyddi llawn amser, 170 o swyddi rhan amser a bod ychydig yn llai na 6,500 o leoliadau gwirfoddol wedi'u creu gan brosiectau. Mae llawer o'r prosiectau hyn wedi bod â ffocws cryf ar ddarparu cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddi a gwirfoddoli i gyn-droseddwyr, y rhai sy'n ddi-waith yn yr hirdymor a phobl gydag anableddau. Mae'r cyfleoedd hyn wedi helpu prosiectau i roi'r grym yn llwyddiannus i grwpiau ac unigolion difreintiedig.

Mae prosiectau wedi gweithio'n agos gyda phobl leol sydd wedi'u hymddieithrio o'u cymunedau neu o ardaloedd difreintiedig, gan ddarparu rolau ystyrlon a gwerthfawr iddynt, a helpu pobl i weld sut y gallant wneud gwahaniaeth a dod yn rhan o'u cymuned. Roedd y strategaethau hyn yn gyffredin i fwyafrif y prosiectau. Yn wir, ymddangosodd y mathau hyn o effeithiau'n aml er mwyn creu'r balchder mwyaf ymhlith y prosiectau. Mae'r cysylltiad hwn hefyd wedi galluogi i grwpiau o'r fath godi eu hyder a'u sgiliau, ac i gynyddu eu synnwyr o gynhwysiant o fewn eu cymuned.

Yn benodol, mae'r prosiectau hynny sydd wedi trefnu ailgylchu dodrefn wedi darparu enghraifft wych o gysylltu ag aelodau wedi ymddieithrio a difreintiedig yn y gymuned. Roedd y prosiectau hyn yn cynnwys casglu dodrefn o gartrefi, ymgymryd ag atgyweiriadau a chynnal a chadw, ac yna gwerthu'r nwyddau neu eu dosbarthu i aelodau cymunedau difreintiedig eraill. Mae proseictau o'r fath wedi darparu cyfleoedd da i ddysgu sgiliau penodol mewn atgyweirio ac adnewyddu; datblygu sgiliau cymdeithasol trwy weithio gyda gwahanol grwpiau o bobl, cydweithwyr a chwsmeriaid; a chyfrannu at eu hunan-barch a hyder. Mae sawl un o'r mathau hyn o brosiectau yn recriwtio cyfran fawr o'u staff o grwpiau difreintiedig gan gynnwys pobl gydag anabledd dysgu, cyn-droseddwyr, y rheini gydag anghenion iechyd meddwl a phobl sydd â hanes o gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol.

Nid yn unig mae'r mathau hyn o brosiectau o fudd i grwpiau trwy wella sgiliau neu hyder, maent hefyd wedi canolbwyntio ar ddarparu teclynnau a dodrefn i'r cartref i'r rheini ar incymau isel. Mae tystiolaeth o'r ymweliadau astudiaeth achos yn dangos bod y prosiectau hyn yn helpu i wella ansawdd bywyd ac amodau byw ar gyfer y grwpiau hyn trwy ddarparu mynediad at eitemau cartref fforddiadwy a dymunol, nad oeddynt ar gael iddynt yn flaenorol.

Dyfodol y prosiectau

Mae canfyddiadau o'r gwerthusiad yn dangos bod peth ansicrwydd yn ymwneud â dyfodol y prosiectau a ariannwyd. Nid oedd nifer o brosiectau wedi dechrau ystyried sut y byddent yn parhau unwaith y byddai eu hariannu yn dod o ben; yn hytrach roeddynt yn amlwg yn canolbwyntio'n fwy ar gyflwyno eu prosiect. Serch hynny, roedd prosiectau yn cydnabod eu bod yn debyg o fod yn ddibynnol ar ariannu yn y dyfodol i gyflawni cynaliadwyedd yn y tymor hwy.

Fe wnaeth sawl prosiect a ariannwyd o dan y rhaglen hon dynnu sylw eu bod yn debyg o fod yn gynaliadwy yn ariannol y tu hwnt i ariannu Trawsnewid Gwastraff oherwydd roeddynt wedi'u cynllunio i ddatblygu busnes newydd a allai sefyll ar ei ben ei hun heb gefnogaeth ariannol ychwanegol. Roeddynt yn gallu dangos bod marchnad yn bodoli ar gyfer eu gwasanaeth penodol a hwyrach y byddant yn ysgogi gweithgaredd cynyddol yn y sector breifat.

Mae cyfweliadau gyda'r partneriaid dyfarnu yn dangos eu bod yn gyffredinol yn teimlo'n hyderus y byddai mwyafrif eu prosiectau yn dod yn gynaliadwy'n ariannol unwaith y mae'r ariannu wedi dod i ben. Yn ychwanegol, fe wnaeth y partneriaid dyfarnu dynnu sylw eu bod wedi helpu i sicrhau bod gan brosiectau siawns dda o ddod yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Roeddent wedi darparu cefnogaeth cyn ymgeisio ac ar ôl ymgeisio, wedi cymhwyso polisïau dethol tynn ac wedi ymgymryd â chyfathrebu parhaus. Fe wnaethant hefyd geisio cysylltu gyda budd-ddeiliaid allweddol eraill megis awdurdodau lleol ac awdurdodau cynllunio.

Casgliadau: Trawsnewid Gwastraff a Meysydd Glas a Chymunedau Cynaliadwy

Casgliadau a'r gwersi a ddysgwyd
Mae canfyddiadau cyffredinol o'r ddau werthusiad yn dangos bod gweithgaredd amgylcheddol uniongyrchol, boed hynny'n gwella gofod glas, creu gwasanaeth ailgylchu, neu ddatblygu ardal chwarae, hefyd wedi helpu prosiectau i gyflawni enillion cymdeithasol ac economaidd ar gyfer eu cymunedau. Mae'r rhaglenni hyn wedi profi'n ffordd effeithiol o gysylltu cymunedau a chyflwyno newid o fewn ardaloedd difreintiedig.

Ymhlith y gwersi a ddysgwyd o'r ddau werthusiad y mae:

- cysylltu'r gymuned leol â chynllunio a chyflwyno'r prosiect wedi bod yn hanfodol i lwyddiant rhan fwyaf o brosiectau. Ynghyd â sicrhau bod prosiectau yn ymateb i anghenion gwirioneddol, mae'n helpu i gynnal buddion ar ôl i'n hariannu ddod i ben
- rhaid ystyried cynaliadwyedd hirdymor ar gyfer anghenion prosiect wrth gynllunio prosiect er mwyn sicrhau y gall y prosiect barhau y tu hwnt i ariannu'r Gronfa Loteri Fawr. Mae hyn yn cynnwys hyfforddi, meithrin partneriaeth a cheisio ffynonellau ariannu eraill
- datblygu perthnasau da gyda llywodraeth leol a'r gymuned yn bwysig i lwyddiant prosiect. Roedd awdurdodau lleol yn fudd-ddeiliad allweddol ar gyfer prosiectau oherwydd eu rhwydweithiau cyfredol, ffrydiau ariannu a chontractau. Yn ychwanegol, mae safle cryf o fewn cymuned y prosiect yn helpu i sicrhau cyflwyniad llwyddiannus. Mae marchnata a chodi ymwybyddiaeth hefyd yn elfennau allweddol i sicrhau cyswllt cymunedol a chefnogaeth
- cefnogi prosiectau yn ystod y cyfnodau cyn ymgeisio a chyflwyno prosiect, megis rheoli'r grant, cysylltu â'r gymuned leol ac agweddau technegol ar gyflwyno prosiect yn llwyddiannus wrth sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni, yn benodol ar gyfer prosiectau sy'n amhrofiadol neu o fewn ardaloedd difreintiedig. Serch hynny, mae hyn yn ddrud iawn a rhaid ei ariannu'n briodol; er enghraifft nid fel gorbenion ond fel rhan hanfodol o ariannu rhaglen
- gall cynnwys staff yn y prosiectau sydd â phrofiad o gyflwyno gwasanaeth neu sydd â sgiliau busnes fod yn fudd gwych i lwyddiant prosiect. Yn ychwanegol, at brosiectau sydd wedi'u cynllunio a'u cyllidebu'n llym gydag amserlenni realistig ar gyfer cyflwyno a thargedau cyraeddadwy yn dueddol o berfformio'n well na'r rheini yr oedd eu cynllunio yn llai ffurfiol neu'n canolbwyntio llai ar fusnes.
- cyfuno elfennau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o ddatblygiad cynaliadwy yn ymdriniaeth lwyddiannus wrth gyflawni cynaliadwyedd a datblygiad cynaliadwy. Enghraifft byddai defnyddio llafur lleol, prynu deunyddiau lleol gan gyflenwyr lleol, hyfforddiant a datblygu sgiliau, a ffurfio mentrau cymdeithasol a lleol
- gall dirprwyo pwerau penderfynu ar gyfer dosbarthu grantiau a chyflwyno rhaglen i bartneriaid allanol (partneriaid dyfarnu) fod yn ffordd effeithiol o dynnu ar sgiliau a gwybodaeth sectorau penodol wrth gyflwyno rhaglenni amgylcheddol. Gall helpu hefyd i gynhyrchu arian ychwanegol a chreu cysylltiadau gyda sefydliadau llawr gwlad. Ond rhaid i gyllidwyr fod yn ymwybodol y bydd yr ymdriniaeth hon yn gofyn am ymrwymiad ariannol ychwanegol.

Beth nesaf?
Bydd canfyddiadau o'r ddau werthusiad, ynghyd ag ymchwil ac ymgynghoriad arall, yn cael eu defnyddio i hysbysu ein gwaith yn y dyfodol. Rydym hefyd ar fin dechrau ymgynghoriad cyhoeddus o fis Tachwedd 2008 a fydd yn para am tua 16 wythnos. Diben yr ymgynghoriad hwn yw cynnig y cyfle i'r cyhoedd adrodd yn ôl ar berfformiad y Gronfa Loteri Fawr hyd yma, ynghyd â helpu i bennu'r blaenoriaethau ar gyfer ein hariannu yn y dyfodol. Am wybodaeth bellach ymwelwch â'n gwefan:
www.cronfaloterifawr.org.uk